**PWYLLGOR SAFONAU**
**2 TACHWEDD 2020**

Cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod mynychu o bell ddydd Llun, 2 Tachwedd 2020.

**YN BRESENNOL: Rob Dewey (Cadeirydd)**
Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley

Aelodau cyfetholedig:
Jonathan Duggan-Keen, Phillipa Earlam, Julia Hughes, Ken Molyneux a Mark Morgan

**CYNRYCHIOLWYR CYNGHORAU TREF A CHYMUNED:** Y Cynghorydd Vivienne Blondek o Gyngor Tref Bwcle, Phillip Parry – Clerk Cyngor Tref Caerwys, David Jones – cynrychiolydd ieuenctid Cyngor Cymuned yr Hôb, y Cynghorwyr Sue Delaney ac Andy Trumper o Gyngor Tref Treffynnon, Tracey Brown - Clerc - a'r Cynghorwyr Veronica Gay, Richard Lloyd ac Aled Roberts o Gyngor Tref Saltney.

**YN BRESENNOL:**
Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro, Arweinydd Tîm y Gwasanaethau Democrataidd, a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 11. DATGANIADAU DIDDORDEB (YN CYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 12. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2020, yn amodol ar ddiwygio gwallau argraffyddol yng nghofnodion rhifau 4 a 6.

Materion yn Codi

Ynghylch cofnod rhif 5, cynghorodd y Dirprwy Swyddog Monitro y byddai adroddiad ar hyrwyddo'r broses oddefebau mewn awdurdodau eraill yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y ddau gywiriad, y dylid derbyn bod y cofnodion yn gywir.

## 13. GODDEFEBAU

Dim.

## 14. EITEMAU A GODWYD GAN GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Rhoddwyd cyfle i Gynghorau Tref a Chymuned godi unrhyw eitemau cyn y cyfarfod: ni dderbyniwyd dim.

## 15. CYFARWYDDIADAU GAN LYWYDD PANEL DYFARNU CYMRU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried y cyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru (APW) ar swyddogaeth y Swyddog Monitro mewn achosion APW, datgelu, a gwneud tystiolaeth tystion a thrydydd partïon yn ddienw.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod y mater wedi codi yn dilyn ei gais ysgrifenedig i Lywydd APW am eglurder ynghylch y broses yn ystod achosion tribiwnlys. Rhoddodd drosolwg o'r tri chyfarwyddyd ymarfer a gyhoeddwyd wedi hynny, sy'n helpu i sicrhau cysondeb, tegwch a thryloywder mewn tribiwnlysoedd, ond nad ydynt yn rhwymol yn gyfreithiol. Byddai'n rhaid i'r Pwyllgor ystyried y rhain mewn unrhyw wrandawiadau yn y dyfodol.

Pasiwyd yr argymhelliad ar ôl iddo gael ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorydd Paul Johnson a Julia Hughes. Gofynnodd y Cynghorydd Heesom am gael cofnodi'r ffaith iddo ymatal rhag pleidleisio.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn croesawu'r cyfarwyddiadau ymarfer, ac yn cytuno i ystyried gweithredu egwyddorion tebyg (fel bo'n briodol) lle bo'r angen mewn unrhyw wrandawiad gerbron y Pwyllgor.

## 16. TROSOLWG O GWYNION MOESEGOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad rheolaidd ar y nifer o gwynion moesegol a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn honni bod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri.

Ers yr adroddiad diwethaf, cyflwynwyd cyfanswm o 16 o gwynion. Fel y cytunwyd yn flaenorol, roedd y wybodaeth yn ddienw, gyda chyfeirinodau'n cael eu rhoi i wahaniaethu rhwng Cynghorau a Chynghorwyr unigol ar gyfer pob cyfnod. Tynnwyd sylw at un gŵyn unigol a wnaed yn erbyn naw Cynghorydd ar yr un pryd, y bu'n rhaid ei hadrodd fel cwynion ar wahân.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Julia Hughes, cytunodd y Swyddog Monitro i ymchwilio a oedd y gŵyn â'r cyfeirnod 16/7020 yn ymwneud â Chyngor Tref ynteu â Chyngor Cymuned. Ynghylch cyfeirnod 17/7925, eglurodd fod y geiriad coll yn dangos na thorrwyd y Cod, yn unol â'i gyngor ef.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Andy Trumper, eglurodd y Swyddog Monitro'r amserlenni targed sy'n berthnasol i amrywiol gamau'r broses. Dywedodd hefyd y gallai newidiadau o fewn Panel Dyfarnu Cymru helpu i gyflymu'r broses o pan wneir cwyn i pan gynhelir gwrandawiad y tribiwnlys achos yn y dyfodol.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Arnold Woolley a'i eilio gan Julia Hughes.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r nifer a'r mathau o gŵynion.

## 17. COFLYFR 23 (HYDREF 2019 – RHAGFYR 2019) OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU A LLYTHYR BLYNYDDOL YR OMBWDSMON

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro'r adroddiad ar y deilliannau yn rhifyn diweddaraf Coflyfr Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y cyfnod o Hydref tan Ragfyr 2019. Rhoddodd drosolwg o'r ddwy gŵyn yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod y cyfnod lle penderfynwyd nad oedd angen gweithredu ymhellach.

Ynghylch Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon ar gyfer 2019/20, crynhowyd canlyniadau'r ddwy gŵyn oedd yn ymwneud â Chynghorwyr Sir. Nodwyd bod y 14 cŵyn yn erbyn Cynghorwyr Tref/Cymuned, y caewyd pob un ohonynt ar ôl rhoi ystyriaeth gychwynnol iddynt, yn cynnwys naw oedd yn ymwneud â'r un digwyddiad.

Cynigiwyd yr argymhellion gan Phillipa Earlam a'u heilio gan y Cynghorydd Paul Johnson.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn fodlon, ar ôl adolygu'r achosion a grynhowyd yn Rhifyn 23 y Coflyfr, nad oes angen i Gyngor Sir y Fflint weithredu ymhellach i osgoi cwynion tebyg; ac

(b) Ar ôl ystyried llythyr blynyddol yr Ombwdsmon, ac ar ôl ystyried a gweithredu ar ddeilliannau'r achos a gyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru, ac ar ôl nodi nad ymchwiliodd yr Ombwdsmon i'r cwynion eraill a wnaed yn ystod 2019/20, daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oes angen gweithredu.

## 18. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried.

Roedd angen eitem ychwanegol ar gyfer cyfarfod Ionawr 2021 ynghylch y broses o recriwtio aelod annibynnol i'r Pwyllgor gan fod tymor olaf y Cadeirydd yn mynd i fod yn dod i ben yn fuan.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## 19. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Nid oedd aelodau o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.30pm, a gorffennodd am 7.20pm)

……………………………
**Cadeirydd**